

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Cofnodion Cyfarfod Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol y Cyngor 8 Mai 2017 am 7.30yh yn Ystafell Berkley, Penyparc

### Presennol

Cyng. Ann Stokoe (*Cadeirydd*)  
Cyng. Dilwyn Jenkins  
Cyng. Auriol Williams  
Hildreth Owen (*Clerc*)

Cyng. Llinos Price (*Is-Gadeirydd*)  
Cyng. Des Davies  
Cyng. Eurig Lloyd  
Cyng. Lyn Jones  
Y Cyng. Clive Davies (*Aelod Lleol o'r Cyngor Sir*)

### 1. Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y Cadeirydd, y Cyng. Ann Stokoe, bawb i'r cyfarfod blynyddol. Dymunodd yn dda i'r Cyng. Llinos Price a oedd yn barod i'w dilyn fel Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017-18. Croesawodd hefyd y Cyng. Clive Davies, Aelod Lleol y Cyngor Sir, a llongyfarchodd ef ar ei lwyddiant yn yr etholiad sirol.

### 2. Penodi Cadeirydd am y flwyddyn 2017-18

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y Cyng. Llinos Price yn cael ei hethol yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017-18; eiliwyd gan y Cyng. Des Davies. Diolchodd y Cyng. Llinos Price i'r Cyng. Ann Stokoe am gyflawni ei gwaith drwy gydol y flwyddyn, a hefyd llongyfarchodd y Cyng. Clive Davies ar ei ethol yn Aelod Lleol o'r Cyngor Sir.

### 3. Llofnodi datganiad derbyn swydd, ac ymrwymo â'r Côt Ymddygiad gan y Cadeirydd newydd.

Gwahoddwyd y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, i ddarllen ac arwyddo'r ddogfen "Datganiad Derbyn Swydd" a'i hymrwymiad i barchu'r côd ymddygiad. Yn eu tro, gwahoddwyd hefyd yr holl Gynghorwyr i ddarllen ac arwyddo'r Côt Ymddygiad.

### 4. Penodi Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2017-18

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams bod y Cyng. Dilwyn Jenkins yn cael ei ethol yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017-18 ac eiliwyd gan y Cyng. Des Davies.

### 5. Ymddiheuriadau am absenoldeb: Y Cyng. Morris Davies.

### 6. Datgan buddiannau personol: Dim.

### 7. Cytuno Lwfans i'r Cadeirydd am y flwyddyn 2017-18

Cynigiwyd gan y Cyng. Lyn Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins bod y swm o £300 y flwyddyn i'w dalu mewn dau randal.

### 8. Penodiadau Allanol am 2017-18:

Pwyllgor Rheoli Ystafell Berkley:

Y Cynghorwyr Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Ann Stokoe, Des Davies a Morris Davies.

Cynrychiolwyr Pwyllgor Lles Penyparc:

Y Cynghorwyr Des Davies, Llinos Price

Cynrychiolydd Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig:

Y Cadeirydd.

Cynrychiolydd Sianel Glir Afon Teifi Cyf.:

Y Cyng. Dilwyn Jenkins.

Llywodraethwr Ysgol Gymunedol Penyparc:

Y Cyng. Eurig Lloyd

Cyfreithwyr:

Mri George, Davies & Evans

Archwilydd Craffu'r Cyfrifon

Y Cyng. Ann Stokoe

Archwilydd Mewnol y Cyfrifon:

Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig

### 9. Cofnodion y Cyfarfod Cyffredinol blaenorol:

Cynigiwyd gan y Cyng. Dilwyn Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Eurig Lloyd bod cofnodion mis Ebrill yn gywir.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 10. Materion yn codi.

(a) **Sbwriel adeiladu ger Traeth Pistyll Ifor:** Derbyniwyd cwynion gan aelodau'r cyhoedd yn Gwbert am y llanastr a welir ar y llwybr o Westy'r Cliff i draeth Pistyll Ifor. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Wells Jones, perchennog Gwesty'r Cliff, er mwyn trafod y mater. Yn dilyn y cyfarfod, dywedodd Mr Jones y byddai'r gwaith adeiladu wedi ei orffen o fewn y mis ac y byddai'n clirio'r llanastr. O fewn yr awr, derbyniwyd galwad ffôn oddi wrth Mr Jones yn dweud ei fod wedi trafod y mater gyda'r adeiladydd ac y byddai'r cyfan wedi ei glirio o fewn diwrnod; mae'r llwybr bellach wedi ei glirio a'i osod â siâl ac mae'r arwydd wedi ei ailosod. Derbyniodd Mr Jones gyngor pellach oddi wrth swyddog y Cyngor Sir ynglŷn â gwaith ychwanegol ar y safle, a'i cyngorwyd bod angen derbyn caniatâd yr awdurdod cyn cau llwybr cyhoeddus. Diolchodd Mr Jones i'r Clerc am gysylltu a thrafod y mater mewn modd hwylus a chwrtais

## 11. Ceisiadau am gymorth ariannol.

I'w penderfynu ym misoedd Ebrill a Hydref, yn unol ag adrannau 137 a 142 (CAB) o'r Ddeddf Ariannol 1996.

Hen Ysgol y Ferwig

I'w drafod ym mis Hydref 2017

PTA Ysgol Gymunedol Penyparc

I'w drafod ym mis Hydref 2017

Ysgol Feithrin Penyparc

I'w drafod ym mis Hydref 2017

Papur Bro "Y Gambo"

I'w drafod ym mis Hydref 2017

*Enwau wedi eu hitaleiddio = cyfrifon wedi eu danfon i mewn gyda'r cais*

## 12. Cynllunio

Rhif y Cais	Cyfeiriad a Bwriad	Sylwadau
A170229	Plot 3, Towyn Farm, Gwbert: "Codi annedd a sied storio. Erection of dwelling and store shed"	Ni all aelodau'r Cyngor ddod i benderfyniad naill ffordd na'r llall, am nad oes digon o wybodaeth ar gael.

## 13. Materion Ariannol

### Biliau i'w talu.

Cyflog y Clerc (Ebrill 2017)	101609	£308.77
Costau'r Clerc (Ebrill 2017)	101610	£84.00
Cyllid a Thollau EM: Treth Incwm y Clerc (Ebrill 2017)	101611	£77.20
Dŵr Cymru (Dŵr ystafelloedd newid)	101612	£69.13
Cyngor Sir Ceredigion (Rhent maes parcio'r Olygfan, Gwbert)	101613	£5.00
Mr Ken Griffiths (Tâl am yr Archwiliad Mewnol, 2016-17)	101614	£165.00
Y Cyng. Llinos Price (Lwfans y Cadeirydd am 6 mis)	101615	£150.00

Cynigiwyd gan y Cyng. Auriol Williams ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe bod y biliau uchod yn cael eu talu.

### Materion ariannol eraill:

#### Hysbysiad o bennu dyddiad ar gyfer arfer hawliau etholwr (yn unol â chanllawiau Grant Thornton):

Mae'r ddogfen wedi ei harddangos yn yr hysbysfyddau ar 20 Ebrill. Bydd dogfennau'r cyfrifon ar gael i'w harchwilio gan aelod o'r cyhoedd o 6-27 Mai 2017.

**Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017.** Yn dilyn yr archwiliad mewnol, cyflwynwyd Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 gan y Clerc. Dosbarthwyd "Datganiadau Cyfrifyddu 2016-17 ar gyfer Cyngor Cymuned Ferwig" a "Datganiad Llywodraethu Blynnyddol (Rhan 1) a (Rhan 2)" i'r holl gynghorwyr.

Archwiliwyd cyfrifon 2016-17 y Cyngor gan yr Archwilydd Mewnol ar 5 Mai 2017. Anfonwyd llythyr o eglurhad ganddo am gyfrifon 2016-17.

Cynigiwyd gan y Cyng. Des Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Ann Stokoe bod y Cyngor yn eu cymeradwyo. Roedd pawb yn gytûn.

Arwyddwyd y ddogfen gan y Cadeirydd, y Cyng. Llinos Price, a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol, Mrs Hildreth Owen ym mhresenoldeb y Cyngor ar 8 Mai 2017.

**Derbyniadau:** Dwy ran o dair o braesept 2017-18 = £10,000.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 14. Gohebiaeth:

14	Gofal Mewn Galar	Derbynneb am rodd ariannol	Nodwyd
15	Urdd Gobaith Cymru Ceredigion	Llythyr o ddiolch a derbynneb am rodd ariannol.	Nodwyd
16	Bronwen Morgan, Prif Weithredwr.	Hysbysiadau Cyhoeddus ynglŷn ag Etholiadau lleol 4/5/17.	Mae'r Clerc wedi eu harddangos yn yr hysbysfyrddau.
17	Paul Arnold, Pennaeth y Gwasanaethau Technegol.	Ymateb ynglŷn â pharcio yn Coronation Drive, Patch, yn awgrymu bod cyfarfod safle yn cael ei drefnu yn y dyfodol.	Nodwyd
18	Gŵyl Fawr Aberteifi	Derbynneb am rodd ariannol.	Nodwyd
19	Mr Phil Thomas	Llythyr oddi wrth Mr Thomas ynglŷn â'r cyflymdra heibio Ysgol Gymunedol Penyparc. Copi wedi ei anfon i Brif Athrawes yr ysgol, a'r Cynghorwyr John Adams-Lewis a Mark Cole.	Mae Elin Jones AC yn ymweld â Phenyparc ar ddydd Sadwrn, 13 Mai. Cytunodd y Cyng. Clive Davies gysylltu â Miss Jones.
20	Swyddfa Archwilio Cymru	Gwybodaeth ynglŷn â ffioedd archwilio a materion eraill sy'n ymwneud ag archwiliad 2015-16.	Nodwyd
21	Eluned Morgan AC	Manylion cyswilt a phoster i'w arddangos ar yr hysbysfwrdd.	Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfyrddau.
22	Cyngor Sir Ceredigion (Gwasanaethau Cyllid)	Manylion taliad rhan gyntaf o'r praesept am 2017-18 = £10,000	Nodwyd
23	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Cydnabyddiaeth o dderbyn sylwadau'r Cyngor ynglŷn ag Adolygiad Trefniadau Ffiniau Etholaethau yng Ngheredigion.	Nodwyd
24	Cyngor Sir Ceredigion (Prif Weithredwr)	Etholiadau Llywodraeth Leol 2017 – Cynghorau Tref a Chymuned. Gwybodaeth am y canlynol: Datganiad Derbyn Swydd / Ymrwymo i gydymffurfio â'r Côt; Côt Ymddygiad; Cofnodi datganiadau o fuddiant; Gollyngiadau; Penodi cynrychiolwyr y Cynghorau Cymuned i fod ar y Pwyllgor Moeseg a Safonau; Sesiynau hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr Cymuned a Chlercod.	Copi ar gael gan y Clerc
25	C.Ff.I. Ceredigion	Llythyr o ddiolch a derbynneb am rodd ariannol.	Nodwyd
26	Cyngor Tref Aberteifi	Gwahoddiad i'r Cadeirydd fynychu cyfarfod Sefydlu'r Maer yn Neuadd y Dref, 23 Mai 2017 am 7.00yh.	Bydd y Cyng. Llinos Price yn mynychu'r cyfarfod

## 15. Materion Eraill:

- (a) **Hysbysfwrdd y Ferwig:** Mae'r bwrdd hysbysu yn Ferwig mewn cyflwr gwael ac yn beryg i gerddwyr. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â Chyngor Cymuned Beulah am wybodaeth bellach.
- (b) **Golau Stryd:** Derbyniwyd gwybodaeth oddi wrth y Cyng. Llinos Price bod y golau stryd tu allan i 41 Heol y Felin yn ddiffygiol. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (c) **Gwydr wedi torri:** Dywedodd y Cyng. Llinos Price bod gwydr wedi torri ar y borfa gyferbyn â garej O. C. Davies, Penyparc. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir.
- (d) **Lluniau i'w gosod ar y wefan:** Mae lluniau o'r ginio a'r cyflwyniad i Mr a Mrs Haydn Lewis wedi eu hanfon at y Cyng. Ann Stokoe gyda'r bwriad o'u gosod ar y wefan.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (e) **Sbwriel wedi ei adael ger Llwynysgaw, Mwnt:** Derbyniwyd cwyn ynglŷn a bag o sbwriel wedi ei adael ger Llwynysgaw, Mwnt. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir.
- (f) **Llechen goffaol yn y clawdd gyferbyn i Hen Ysgol y Ferwig:** Bu rhaid tynnu'r llechen oddi ar y clawdd ym mis Mawrth, 2016 a chafwyd pris o £375 + TAW gan Mr Dyfed Symmons i'w hailosod ar fur yr Hen Ysgol.
- (g) **Bws "Y Cardi Bach":** Derbyniwyd cwyn am nad yw'r Cardi Bach yn cyrraedd traeth y Mwnt. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Brodyr Richards er mwyn cael eglurhad.
- (h) **Mainc yn y clawdd yng nghae pêl-droed, Penyparc:** Mae angen trasio o amgylch y fainc a'i pheintio. Gofynnwyd i'r Clerc siarad gyda Mr John Morris.
- (i) **Mainc gerllaw'r ciosg yn Penyparc:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda Mr Morris ynglŷn â pheintio'r fainc hon.
- (j) **Arwydd ar Sgwâr Brongwyn:** Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn â'r arwydd sydd angen ei ailosod.

## 16. **Dogfennau'r Cyngor – (Cynghorwyr i ddod â'u copïau l'r cyfarfod)**

Asesiad Risg ar y Cyfrifon.	Copi ar gael gan y Clerc.
Cynllun Cyhoeddi Gwybodaeth.	Copi ar gael gan y Clerc.
Strategaeth Buddsoddiadau'r Cyngor.	Copi ar gael gan y Clerc.
Cynllun yr Iaith Gymraeg	Copi ar gael gan y Clerc.

Penderfynwyd trafod yr eitemau uchod yng nghyfarfod mis Mehefin.

## 17. **Dyddiad y Cyfarfod Cyffredinol nesaf: 5 Mehefin 2017 (F)**

### **Cyfarfodydd y Cyngor am 2017-18**

3 Gorffennaf (YB)    4 Medi (F)    2 Hydref (YB)    6 Tachwedd (F)    4 Rhagfyr (YB)

*Dynoda:*    F = Hen Ysgol y Ferwig.    YB = Ystafell Berkley    CB = Cyfarfod Blynyddol

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## Minutes of the Annual General Meeting held on 8 May 2016 at 7.30pm at Ystafell Berkley, Penyparc

### Present:

Cllr Ann Stokoe (*Chairperson*)  
Cllr Dilwyn Jenkins  
Cllr Auriol Williams  
Mrs Hildreth Owen (*Clerk*)

Cllr Llinos Price (*Vice Chairman*)  
Cllr Eurig Lloyd  
Cllr Des Davies  
Cllr Lyn Jones  
Cllr Clive Davies (*Local Member of the  
County Council*)

### 1. Chairman's welcome.

The Chairman, Cllr Ann Stokoe, welcomed all to the meeting. She thanked her fellow councillors for their support throughout the year, and wished her successor, Cllr Llinos Price, a successful year in office during 2017-18. Cllr Stokoe also congratulated Cllr Clive Davies as the new local member of the County Council.

### 2. Appointment of a Chairperson for the year 2017-18

It was proposed by Cllr Auriol Williams that Cllr Llinos Price be elected Chairperson of the Council for the year 2017-18; this was seconded by Cllr Des Davies. Cllr Llinos Price thanked Cllr Ann Stokoe for her work during the year 2016-17.

### 3. Signing the document "Declaration of Acceptance of Office" and undertaking to observe the current Code of Conduct.

The Chairperson, Cllr Llinos Price, was invited to read and sign the "Declaration of Acceptance of Office" document. All councillors present were invited to read and sign the aforementioned document.

### 4. Appointment of a Vice-Chairperson for the year 2017-18

It was proposed by Cllr Auriol Williams that Cllr Dilwyn Jenkins be appointed Vice-Chairman for the year 2017-18; this was seconded by Cllr Des Davies.

### 5. Apologies for absence: Cllr Morris Davies.

### 6. Personal and Prejudicial Interest: None

### 7. Chairman's Allowance for the year 2017-18:

It was proposed by Cllr Lyn Jones and seconded by Cllr Dilwyn Jenkins that the sum of £300 per annum be agreed; this sum to be paid in two equal instalments.

### 8. Other Appointments: (2017-18)

Ystafell Berkley Management Committee  
  
Pwyllgor Lles Penyparc Representatives  
Pwyllgor Lles a Neuadd y Ferwig Representative  
Afon Teifi Fairways Committee Ltd.  
Governing Board Ysgol Gymunedol Penyparc  
Solicitors  
Council's Accounts' Scrutineer  
Accounts Internal Auditor

Cllrs Dilwyn Jenkins, Llinos Price, Ann Stokoe,  
Des Davies and Morris Davies  
Cllrs Des Davies, Llinos Price  
Chairperson  
Cllr Dilwyn Jenkins  
Cllr Eurig Lloyd  
George, Davies & Evans, Cardigan  
Cllr Ann Stokoe  
Mr Ken Griffiths, Lleifior, Ferwig

### 9. Minutes of previous monthly meeting

It was proposed by Cllr Dilwyn Jenkins and seconded by Cllr Eurig Lloyd that the April minutes were correct.

### 10. Matters arising:

- (a) **Building Rubble on the path leading to Evelyn's Beach:** Complaints have been received from members of the public in Gwbert regarding the rubble left on the path leading from the Cliff Hotel to Evelyn's Beach. The Clerk was asked to contact Mr Wells Jones, owner of the Cliff Hotel, in order to discuss the matter. Mr Jones stated that the work would be completed within a month, and that the rubble would be completely cleared. Within an hour, the clerk received a telephone call from Mr Jones stating that he

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

had discussed the matter with the builder who agreed that the rubble would be cleared within a day: the path has now been cleared, and shale put down with the sign replaced. Mr Jones had also contacted the County Council, and he was advised that before further work was to be carried out on the site he needs to obtain permission from the County Council before closing off any public pathway. Mr Jones thanked the Clerk for contacting him and discussing the matter in a courteous manner.

## 11. Requests for financial support:

To be discussed in April and October in accordance with Sections 137 and 142 (CAB) of the Finance Act 1996.

Ferwig Old School	To be discussed in October 2017
Penyparc School PTA	To be discussed in October 2017
Ysgol Feithrin Penyparc	To be discussed in October 2017
“Y Gambo” – local Welsh newspaper	To be discussed in October 2017

*Names in italics = accounts forwarded with applications.*

## 12. Planning:

<i>Rhif y Cais</i>	<i>Cyfeiriad a Bwriad</i>	<i>Sylwadau</i>
A170299	Plot 3 Towyn Farm, Gwbert: Erection of dwelling and store shed.	Members are unable to support this application as they feel there is insufficient information provided.

## 13. Financial Matters.

### Bills paid

Clerk’s salary (April 2017)	101609	£308.77
Clerk’s expenses (April 2017)	101610	£84.00
PAYE: Clerk’s income tax (April 2017)	101611	£77.20
Wales Water (Changing Rooms)	101612	£59.13
Ceredigion County Council (Gwbert Viewpoint rent)	101613	£5.00
Mr Ken Griffiths (Internal Auditor – 2016-17 accounts)	101614	£165.00
Cllr Llinos Price (Chairperson’s allowance for 6 months)	101615	£150.00

It was proposed by Cllr Auriol Williams and seconded by Cllr Ann Stokoe that the above bills be paid.

### Other financial matters:

Notice of Appointment of date for the exercise of electors’ rights has been posted on notice boards on 20 April for the inspection period from 6-27 May 2017.

The financial documents for the financial year 2016-17 have been audited by Mr Ken Griffiths, the Council Internal Auditor, on 5 May 2017. A letter of explanation was forwarded by Mr Griffiths regarding the accounts. The Clerk presented the Local Councils in Wales Annual Return for the year ended 31 March 2017.

### The Annual Governance Statement (Part 1) and the Annual Governance Statement (Part 2):

Following certification by the Responsible Financial Officer, the above accounting statements were presented to the Council.

It was proposed by Cllr Des Davies and seconded by Cllr Ann Stokoe that the Council approves the above Statements. All members were in agreement.

To the best of its knowledge and belief, and subject to the audit findings, the responses to each statement of assurance are accurate, complete and represent the Council’s final responses.

The Annual Return was signed by the Chairperson, Cllr Llinos Price and the Responsible Financial Officer, Mrs Hildreth Owen, in the presence of the Council, 8 May 2017.

**Receipts:** Two-thirds of Precept for 2017-18 = £10,000.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

## 14. Correspondence

14	Cruse Bereavement Care	Receipt for financial aid	Noted
15	Urdd Gobaith Cymru Ceredigion	Letter of thanks and receipt for financial aid.	Noted
16	Bronwen Morgan, Chief Executive	Public Notices in connecton with Local Elections 4/5/17.	The Clerk has displayed these in the noticeboards.
17	Paul Arnold, Head of Technical Services	Response regarding parking at Coronation Drive, Patch, suggesting that a site meeting be held in the future.	Noted
18	Gŵyl Fawr Aberteifi	Receipt for financial aid	Noted
19	Mr Phil Thomas	Letter from Mr Thomas regarding the speed limit at Penyparc Junior School. He has sent a copy to the Headteacher of the school and to Cllrs John Adams-Lewis and Mark Cole.	
20	Wales Audit Office	Information regarding audit fees and matters pertaining to the 2015-16 national audit.	Noted
21	Eluned Morgan AM	Contact details and poster.	Poster has been displayed in the noticeboards.
22	Ceredigion County Council (Financial Services)	Details of first payment of precept for 2017-18 = £10,000	Noted
23	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Confirmation of receipt of the Council's observations regarding Review of Electoral Arrangements for the County of Ceredigion.	Noted
24	Ceredigion County Council (Chief Executive)	Local Government Elections 2017 – Town and Community Councils. Information regarding the following: Declaration of Acceptance of Office / Undertaking to comply with the Code; Recording disclosures of Interest; Dispensations; Appointment of Community Council representatives to the Ethics and Standards Committee; Training sessions for Community Councillors and Clerks.	Copy can be obtained from the Clerk.
25	Ceredigion YFCs	Letter of thanks and receipt for financial aid.	Noted
26	Cardigan Town Council	Invitation to the Chairperson to attend the Mayor Making Ceremony at the Guildhall, Cardigan on 23 May at 7.00pm.	Cllr Llinos Price was nominated to represent the Council at the ceremony.

## 15. Other Matters.

- (a) **Noticeboard at Ferwig:** The noticeboard at Ferwig is in a state of disrepair and is a danger to walkers. The Clerk to contact the Clerk of Beulah Community Council for information.
- (b) **Street Light:** Information has been received from Cllr Llinos Price that the street light outside 41 Heol y Felin is malfunctioning. The Clerc has contacted the County Council.
- (c) **Broken glass:** Cllr Llinos Price contacted the Clerk informing that broken glass has been left on the grass behind the kiosk at Penyparc square. The Clerk has contacted the County Council.

# CYNGOR CYMUNED Y FERWIG COMMUNITY COUNCIL

- (d) **Photographs to be placed on the Council website:** Photographs of the annual lunch and the presentation to Mr and Mrs Haydn Lewis have been forwarded to Cllr Ann Stokoe with the intention of placing them on the Council website.
- (e) **Flytipping at Llwynysgaw, Mwnt:** A complaint has been received regarding the dumping of a rubbish bag near Llwynysgaw. The Clerk was requested to contact the County Council.
- (f) **Memorial Slate in the hedge opposite Hen Ysgol y Ferwig:** The slate had to be removed from the hedge in March 2016 and a price of £375+VAT to replace it on the school wall was received from Mr Dyfed Symmons.
- (g) **“Y Cardi Bach” coastal bus:** Complaints have been received from members of the public that “Y Cardi Bach” does not travel down to Mwnt Beach. The Clerk was requested to contact Richards Bros Coaches for an explanation.
- (h) **Bench in the hedge at the football pitch Penyparc:** The Clerk was requested to contact Mr John Morris regarding trashing around the bench and also to paint it.
- (i) **Bench near the kiosk at Penyparc:** The Clerk was requested to contact Mr John Morris asking him to paint the bench.
- (j) **Signpost at Brongwyn Square, Penyparc:** The Clerk was requested to contact the County Council asking them to repair the signpost.

## 16. Council Documents:

Risk Assessment	Copy available with the Clerk.
Model Publication Scheme	Copy available with the Clerk.
Annual Investment Strategy	Copy available with the Clerk.
Welsh Language Scheme	Copy available with the Clerk.

It agreed that the above documents be discussed at the June meeting.

## 17. Date of next Council Meeting: 5 June 2017 at 7.30pm at Hen Ysgol y Ferwig

### Council Meetings for 2017-18

3 July (YB)    4 September (F)    2 October (YB)    6 November (F)    4 December (YB)

*Denotes:*    F = Ferwig Old School.    YB = Ystafell Berkley.    AGM = Annual General Meeting